

Treiglo y treigladau llaes

Uned 2

Dim ond **p t c** sy'n treiglo'n llaes. Efallai y byddai'n haws eu cofio fel yr 'antiseptic' **t c p**. Maent yn treiglo i **th ch ph**.

T	>	Th	tad a thad -cu
C	>	Ch	ci a chath
P	>	Ph	papur a phensil

Dyma'r 9 gair sy'n achosi'r treigladau llaes: **ei(b) a (and) na (than) ni â gyda tua tri chwe**

ei	e.e.	ei th ŷ (hi) (her house) ei ch ar (hi) (her car) ei ph wyllgor (her committee)	i'w th ŷ (to her house) i'w ch ar (to her car) i'w ph wyllgor (to her committee)	*i + ei = i'w to her
a, na, ni,	e.e.	darlithoedd a ch yfarfodydd lectures and meetings Mae coffi'n well na th e Coffee is better than tea Dwedais wrtho na ch efais gyfle I told him that I did not have an opportunity Ni ph erfformir y ddrama The play will not be performed	papur a ph ensil paper and pencil Ga' i fynd? Na ch ei / Na ch ewch May I go? No (you may not)	
â, gyda,	e.e.	Siaradais â thad y myfyriwr. I spoke to (with) the student's father. Peidiwch â ch anu Don't sing Gyda ph wy? With whom?	Maent mor dwp â ph awb arall. They are as stupid as everyone else. Cwrdd â phobl y pentref to meet (with) the people of the village Gyda th eulu fy ffrind With my friend's family	
tua	e.e.	tua ph ump o'r gloch about/approximately five o'clock		
tri, chwe	e.e.	tri ch yfarfod three meetings	chwe ph eth pwysig six important things	

Un ffordd o gofio pa eiriau sy'n achosi'r treigladau llaes yw eu rhoi mewn ymadroddion neu frawddegau, e.e.

Mae chwe chath a thri chi gyda chyfaill ei thad	chwe	a	tri	gyda	ei
Es i â photel o win i'w th ŷ am tua phump.	â	'w	tua		
Ni ch efais wydryn na chwpan.	ni	na			

Llenwch y bylchau â'r geiriau yn y cromfachau a'u treiglo os bydd angen.

Aeth hi i aros gyda'i _____ (*perthnasau*) ddoe ond ni _____ (*cyrhaeddodd*).

Dim ond chwe _____ (*person*) a ddaeth i'r tri _____ (*cyfarfod*) : Tri _____ (*dyn*) a _____ (*tair*) menyw.

Ni _____ (*ffoniaf*) yr adran gan nad ydynt yn fodlon cysylltu â'r _____ (*tiwtoriaid*).

ëidiwch â _____ (*camddeall*). Nid wyf yn cytuno â _____ (*polisi*)'r llywodraeth.

Byddai'n well gennyf gyrraedd yn gynnar na _____ (*cyrraedd*) yn hwyr.

Gwelais tua _____ (*100*) o bobl yn sefyll y tu allan i'r adeilad.

Cerddais o'r ystafell a _____ (*cau*)'r drws yn glep y tu ôl i fi.

Prynodd Siân rywbeth i'w _____ (*tad*) a _____ (*rhywbeth*) i'w _____ (*chwaer*).

Rwy'n bwriadu mynd gyda _____ (*tad yng nghyfraith*) Delyth, os na _____ (*caiff*)

broblemau â'r _____ (*car*).

Rhowch un o'r geiriau hyn yn y bwlch priodol: â/ag a/ac na/nad ni/nid ei/i/'w

_____ chlywais siw _____ miw o'r ystafell wely.

Peidiwch _____ phoeni, cawn gyfle i drafod y manylion _____'r bobl eraill maes o law.

_____ chododd Meryl tan wyth o'r gloch gan _____ oedd hi wedi cofio gosod _____ chloc larwm.

_____ wyf yn gallu _____ chodi, mae'n rhy drwm _____ mae'n rhy fawr.

Cyrhaeddodd Sara â _____ gwynt yn _____ dwrn.

Agorais y drws _____ allwedd _____ chamu dros y trothwy.

Rhedodd Tina i _____ thŷ _____ dweud wrth _____ thad _____ oedd hi am fynd i'r ysgol.

_____ oes angen cwyno, rwyf wedi dweud wrthynt _____ chawsom y parsel, _____ dywedant y byddant yn anfon un arall atom _____'r cyfeiriad newydd arno.

Rhowch y geiriau yn y cromfachau yn y bylchau a'u treiglo (trwynol/llaes) os bydd angen.

Collais fy _____ (*bag*) _____ (*yn Pontabraham*) ddoe.

Dwedais wrthynt na _____ (*cânt*) fynd â _____ (*pethau*) fy _____ (*mam*) o'i _____ (*tŷ*).

Rwy'n byw _____ (*yn Rhydaman*) gyda fy _____ (*cyfnither*) a'i _____ (*ci*).

Ewch â _____ (*papur*) a _____ (*pensil*) i gofnodi popeth, rhag ofn na _____ (*cofiwch*)

rywbeth ar ôl i chi ddod yn ôl.

Byddaf _____ (*yn cornel*) y sgwâr tua _____ (*tri*) o'r gloch gyda _____ (*papur*) pum punt a _____ (*copi*)

o'r *Times* dan fy _____ (*cesail*).

Trafod manteision ac anfanteision

1. Beth yw manteision ac anfanteision byw mewn dinas fawr?
2. Beth yw manteision ac anfanteision byw ar lan y môr?
3. Beth yw manteision ac anfanteision gweithio mewn swyddfa 'cynllun agored'?
4. Beth yw manteision ac anfanteision dysgu Ffrangeg yn yr ysgol?
5. Beth yw manteision ac anfanteision gyrru i'r gwaith?
6. Beth yw manteision ac anfanteision siopa pedair awr ar hugain?
7. Beth yw manteision ac anfanteision gweithio mewn sefydliad neu gwmni bach?
8. Beth yw manteision ac anfanteision prynu pethau dros y we?
9. Beth yw manteision ac anfanteision gweithio o gartref?
10. Beth yw manteision ac anfanteision cadw anifail anwes?

Trafod y dasg

1. Ydy hi'n well gwneud nodiadau wrth siarad am bwnc?
2. Ydy hi'n bwysig edrych ar y gynulleidfa, neu gadw at y nodiadau?

Trafodwch ble byddech chi'n defnyddio'r **Treiglad Llaes** wrth sgwrsio'n naturiol.
Nodwch **bum enghraifft** isod:

1. _____
2. _____
3. _____
4. _____
5. _____

Yn y brawddegau isod, mae o leiaf ddau ateb posibl i bob bwlch. Mae un ateb yn gywir a'r lleill yn wallus.
Rhaid penderfynu pa un yw'r un cywir a pham:

1. "Peidiwch _____," meddai hyfforddwr y tîm, "rydym yn siŵr o ennill y tro nesaf."
(a. poeni; b. â poeni; c. â phoeni)
2. Yr oeddynt yn ymladd a ffraeo fel _____ drwy'r nos.
(a. ci a cath; b. ci a chath)
3. Fis ar ôl iddi symud, yr oedd Siwan yn dal i anghofio sut i fynd _____ newydd.
(a. i'w thŷ; b. i'w tŷ; c. iddi thŷ)
4. Penderfynodd Lowri werthu _____ ar ôl y ddamwain.
(a. ei car; b. ei char; c. car hi)
5. Gwrthododd Megan dalu mwy na _____ am yr anrheg.
(a. chwech punt; b. chwe punt; c. chwech phunt; ch. chwe phunt)
6. Dyma'r dyn _____ am ddiod i bawb.
(a. talodd ddim; b. na dalodd; c. na thalodd; ch. na talodd)
7. Wrth drefnu taith ysgol, mae'n bwysig sicrhau bod y plant i gyd yn dod gyda _____ eu rhieni.
(a. chaniatâd; b. caniatâd)
8. Ar ôl i'r tîm arall sgorio eu pumed gôl, yr oedd pawb yn gwybod bod y gêm _____.
(a. wedi colli; b. wedi ei golli; c. wedi ei cholli; ch. wedi ei colli)
9. Daeth tua _____ o bobl i'r cyngerdd neithiwr.
(a. tri chant; b. thri cant; c. thri chant)
10. _____ defnyddio ffonau symudol yn y theatr hon.
(a. ni chaniateir; b. ni caniateir; c. ni ganiateir)